

# YR HYN Y GALLWCH EI DDISGWYL GAN ATHRAWON A STAFF CYMORTH DYSGU

CANLLAW I RIENI

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	2
Ein cefndir .....	3
Beth yw cofrestru? .....	4
Beth yw'r Cod? .....	5
Codi pryderon gyda CGA .....	6
Ein grymoedd a'n sancsiynau.....	7
Cysylltu â ni .....	8

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd  
This document is also available in Welsh

## Cyflwyniad

Fel rhiant, pan fyddwch yn anfon eich plant i'r ysgol, rydych yn ymddiried yn yr athrawon a'r staff cymorth sy'n gweithio yno bob dydd.

Yng Nghymru, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gweithio fel athro neu sydd mewn rôl cymorth dysgu mewn ysgol a gynhelir fod wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Mae hyn hefyd yn berthnasol i staff mewn sefydliadau addysgol eraill fel colegau addysg bellach a gwaith ieuencid.




Hayden Llewellyn  
Prif Weithredwr, Cyngor y Gweithlu Addysg

Mae'n rhaid i bob un o'r 80,000 o staff hyn hefyd ddilyn Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA.

Bwriedir i'r trefniadau hyn helpu i ddiogelu eich plant a chi.

Diben y ddogfen arweiniad hon yw dweud wrthych am y materion hyn ac esbonio'ch hawliau fel rhiant os yw athro neu weithiwr cymorth dysgu (sydd wedi'i gofrestru gyda CGA) yn torri'r Cod.



John Jolly  
Prif Weithredwr, Parentkind

## Cefndir CGA

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn nodi mai'r hyn a wnaiff CGA yw:

- Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- Cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon ac eraill sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru
- Diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a gynhelir a cholegau addysg bellach, yn ogystal â gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid a phobl sy'n gysylltiedig â dysgu seiliedig ar waith. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio yn y rolau hyn yng Nghymru fod wedi'i gofrestru gyda ni.

Am wybodaeth bellach, ewch i [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru).



## Cefndir Parentkind

Nod Parentkind yw annog, ysbrydoli a galluogi rhieni i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant er mwyn i bob plentyn ffynnu.

Fel elusen, rydym yn hyrwyddo a chefnogi'r holl ffyrdd gall rhieni gyfranogi mewn addysg a cael dweud eu dweud. Rydym am i fwy o rieni fod yn rhan o addysg eu plant, a mewn mwy o ffyrdd – yn yr ysgol ac yn y cartref fel ei gilydd. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant i gefnogi cyfranogiad rhieni mewn addysg yn yr ysgol ac adref. Yn ogystal, ni yw'r mudiad aelodaeth Cymdeithas Rhieni ac Athrawon arweiniol i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Am wybodaeth bellach, ewch i [www.parentkind.org.uk](http://www.parentkind.org.uk)

# Parentkind

## Beth yw cofrestru?

Er mwyn cofrestru, rhaid i berson fodloni ein gofynion mewn perthynas â:

- Meddu ar y cymwysterau cywir; a
- Safonau ymddygiad ac ymarfer blaenorol.

Os nad yw athro neu weithiwr cymorth dysgu'n bodloni ein gofynion, ni fyddwn yn ei gofrestru, sy'n golygu na chaiff weithio mewn ysgol a gynhelir.

Gallwch wirio bod y staff yn eich ysgol leol wedi'u cofrestru gyda CGA. Gallwch weld hefyd ar bwy rydym wedi gosod gorchymyn disgyblu. Rhowch gynnig arni yn [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru).

Gallwch wneud yr un peth ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill megis meddygon, nyrsys, deintyddion, ffisiotherapyddion, optegwyr, cyfreithwyr, gweithwyr cymdeithasol a llawer o bobl eraill ar eu gwefannau.



## Beth yw'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol?

Unwaith y byddant wedi'u cofrestru gyda CGA, mae'n rhaid i'n cofrestreion ddilyn ein Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Mae'r Cod yn nodi'r safonau a ddisgwylir ganddynt, yn yr ysgol a thu allan.

Fodd bynnag, mae'r Cod ar gyfer disgyblion, rhieni, gofalmwyr a'r cyhoedd hefyd fel eich bod yn gwybod pa fathau o ymddygiad y gallwch eu disgwyl gan berson sy'n gorfod cofrestru gyda ni oherwydd y gwaith mae'n ei wneud.

Mae codau ymddygiad ac ymarfer hefyd yn gyffredin mewn proffesiynau eraill. Os nad ydych erioed wedi edrych arnynt, mae'n werth ei wneud. Ewch ar y we a mynnwch olwg. Gallai hyn wneud i chi feddwl y tro nesaf yr ewch i weld eich meddyg teulu oherwydd nad ydych yn teimlo'n hwylus, neu'n mynd at y deintydd oherwydd bod eich dant wedi cwmpo allan neu'n defnyddio cyfreithiwr i'ch helpu i werthu eich tŷ neu wneud ewyllys.

Drwy ddilyn Cod CGA, mae cofrestreion yn ymrwmo i gynnal pum egwyddor allweddol:

- Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol
- Unplygrwydd Proffesiynol
- Gweithio ar y Cyd
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol
- Dysgu Proffesiynol

Yna mae pob egwyddor yn rhoi manylion pellach. Er enghraifft:

Mae'r adran **Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol** yn nodi bod ein cofrestreion:


*“Yn meddu ar ddyletswydd gofal dros ddiogelwch dysgwyr a'u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol”*

Ac mae'r adran **Unplygrwydd Proffesiynol** yn dweud bod ein cofrestreion:

*“Yn ymddwyn yn onest, a chydag unplygrwydd, mewn perthynas â materion megis arholiadau a chyllid ysgol”*

Mae gennym lawer o ddeunyddiau cymorth sy'n helpu pobl i ddefnyddio a deall y Cod. Er enghraifft, rydym yn rhoi awgrymiadau a syniadau am faterion megis defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel. Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant a digwyddiadau ymwybyddiaeth yn rheolaidd. Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu sesiwn ar gyfer eich ysgol neu grŵp, rhowch wybod i ni.

Gallwch ddarllen y Cod yn [www.cga.cymru/bethywpiy](http://www.cga.cymru/bethywpiy).



## Codi pryderon gyda CGA

Dim ond nifer fach iawn o'n cofrestreion sy'n torri'r Cod, ond os ydynt, gallwn ymchwilio i'r hyn maen nhw wedi'i wneud er mwyn penderfynu a oes angen i ni weithredu. Gwnawn hyn i ddiogelu disgyblion, rhieni, gofawr y'r cyhoedd.

### Cyfrifoldebau cyflogwyr

Os yw ysgol a gynhelir yn diswyddo un o'n cofrestreion neu os yw'r unigolyn yn gadael ond byddai wedi cael ei ddiswyddo pe bai wedi aros, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr ysgol i hysbysu CGA. Bydd yr awdurdod lleol fel arfer yn gwneud hyn ar ei rhan. Hefyd, os yw un o'n cofrestreion yn cyflawni trosedd, bydd yr heddlu yn ein hysbysu os ydynt o'r farn ei bod yn berthnasol i'w rôl ym maes addysg. Mae eraill, fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS), hefyd yn atgyfeirio materion aton ni o bryd i'w gilydd.

### Eich hawl i godi cwyn gyda ni

Fel rhiant, gallwch hefyd godi cwyn gyda CGA am un o'n cofrestreion os ydych o'r farn ei fod ef/ei bod hi wedi torri'r Cod. Fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu gwneud hyn, dyma restr wirio y mae'n rhaid i chi ei dilyn.

# 1

Os byddwch yn penderfynu codi pryder gyda CGA, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen a'r arweiniad canlynol oddi ar ein gwefan: [www.cga.cymru/bethywpiy](http://www.cga.cymru/bethywpiy).

Os nad ydych yn defnyddio'r ffurflen hon nac yn cyflwyno'ch cwyn yn unol â'r arweiniad, byddwn yn ei dychwelyd i chi.

# 2

Mae'n rhaid i gŵyn fod am **ymddygiad proffesiynol annerbyniol** neu **anghymhwysedd proffesiynol difrifol** honedig cofrestrai. Mae diffiniadau o'r termau hyn yn yr arweiniad y cyfeirir ato o dan 1 uchod.

Noder, mae'r trothwy ar gyfer canfod ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol gan CGA yn uchel. Er enghraifft, os caiff cofrestrai ei ddiswyddo oherwydd ei ymddygiad naill ai tu mewn neu tu allan i'r ysgol, mae'n fwy tebygol y byddwn o'r farn bod hyn yn annerbyniol. Mae ymddygiad sy'n annhebygol o arwain at ddiswyddiad gan ysgol yn llai tebygol o gael ei dybio i fod yn annerbyniol gennym.

# 3

Dim ond os ydych wedi cyflwyno union **yr un gŵyn** i'r ysgol / awdurdod lleol ac wedi derbyn ymateb y byddwn yn derbyn cwyn. Os nad ydych wedi gwneud hyn, bydd angen i chi wneud hyn yn gyntaf. Bydd angen i ni gael tystiolaeth ysgrifenedig o hyn, ynghyd â chanlyniad ymchwiliad yr ysgol / awdurdod lleol.

# 4

Ni fyddwn yn derbyn cwyn sy'n ymwneud â:

- Pherson nad yw wedi'i gofrestru gyda CGA
- Iechyd cofrestrai
- Unrhyw anawsterau rydych yn eu cael gydag ysgol, awdurdod lleol, corff llywodraethu neu unrhyw sefydliad arall nad ydynt wedi'u datrys mewn modd sy'n foddhaol i chi

# 5

Pan fyddwn yn derbyn cwyn gennych, byddwn yn anfon eich cwyn at y cofrestrai a'i ysgol / awdurdod lleol am sylwadau a gwybodaeth bellach.

## Ein grymoedd a'n sancsiynau

Pan fyddwn yn ymchwilio i achos sydd wedi'i atgyfeirio atom gan gyflogwr, yr heddlu neu drydydd parti megis rhiant, mae'n rhaid i ni benderfynu a yw'r person yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol. Os ydym, yna rydym yn ystyried a ddylem osod unrhyw gyfyngiadau ar ei ymarfer yn y dyfodol fel athro neu weithiwr cymorth.

Bydd yr achosion mwyaf difrifol rydym yn ymdrin â nhw'n golygu gwrandawriad sy'n cael ei gynnal yn gyhoeddus.

Gallem benderfynu:

- Peidio â chymryd unrhyw gamau; neu
- Benderfynu bod gan y cofrestrai achos i'w ateb.

Os ydym yn canfod bod yr honiadau wedi'u profi a'u bod yn bodloni'r trothwy ar gyfer ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, gallwn osod un o'r gorchmynion disgyblu canlynol:

- **Cerydd.** Mae hyn yn golygu y gall y person barhau i ymarfer ond bydd y cerydd yn aros ar ei gofnod am 2 flynedd;
- Gosod **amodau ar gyflogaeth y person yn y dyfodol**, megis ymgymryd â hyfforddiant pellach; neu
- **Atal y person rhag ymarfer** mewn ysgol a gynhelir, naill ai am gyfnod penodol o amser neu'n barhaol



## Cysylltu â ni

Mae'r Cod, ynghyd â Chanllawiau Ymarfer Da sy'n ei ategu, ar gael ar ein gwefan, [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru). Os oes angen arnoch gymorth, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy:

**Cyfeiriad:** Priodoldeb i Ymarfer, 9fed Llawr, Eastgate House,  
35-43 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

**Ffôn:** 029 2046 0099

**E-bost:** [priodoldebiymarfer@cga.cymru](mailto:priodoldebiymarfer@cga.cymru)